Swyddfa'r Gwarcheidwad Cyhoeddus

Click here to reset form

Click here to print form

Ffurflen

# LP1F

# Atwrneiaeth arhosol

# Penderfyniadau ariannol

Mae cofrestru'r LPA hon yn costio

**£82**

Mae'r ffi hon yn dibynnu ar brawf modd: gweler y Canllawiau ymgeisio, rhan B

Defnyddiwch hon ar gyfer:

- delio â'ch cyfrifon banc a'ch cyfrifon cynilo
- buddsoddi arian neu werthu buddsoddiadau
- talu eich biliau
- prynu neu werthu eich tŷ

**Sut i lenwi'r ffurflen hon**

**DEFNYDDIWCH BRIFLYTHRENNAU A PHIN YSGRIFENNU DU**

☒ Rhowch X i farcio'ch dewis

■ Os byddwch yn gwneud camgymeriad, lliwiwch y blwch ac wedyn rhowch X wrth y dewis cywir

**Peidiwch â defnyddio hylif cywiro.** Rhowch linell drwy gamgymeriadau a'i ail ysgrifennu yn ymyl. Rhaid i bawb sydd yn rhan â phob adran lofnodi pob newid.

Cyn ichi ddechrau...

**Mae gwneud LPA ar lein yn symlach, yn gliriach ac yn gyflymach**

Mae ein ffurflen ar lein yn cynnig faint bynnag o help sydd ei angen arnoch chi ar yr union adeg iawn: **www.gov.uk/power-of-attorney**

Mae'r ffurflen hon ar gael yn Saesneg hefyd. Ffoniwch y llinell gymorth ar 0300 456 0300

# Y bobl sy'n rhan o'ch LPA

Llinell Gymorth
0300 456 0300

Wrth ichi wneud LPA, y peth hawsaf fydd dewis yn gyntaf y bobl hynny rydych am iddynt eich helpu. **Rhowch eu henwau yma nawr** er mwyn ichi allu cyfeirio'n ôl atynt wedyn.

## I wneud LPA, rhaid ichi gael y bobl hyn:

### Rhoddwr

| |
|---|
| |

Os ydych yn llenwi'r ffurflen hon ichi'ch hun, chi yw'r rhoddwr. Os ydych yn llenwi'r ffurflen hon ar ran ffrind neu berthynas, nhw yw'r rhoddwr.

### Atwrneiod

| |
|---|
| |
| |
| |
| |

Atwrneiod yw'r bobl y byddwch yn eu dewis i wneud penderfyniadau drosoch chi. Does dim rhaid iddyn nhw gael hyfforddiant cyfreithiol.

Dylech ddewis pobl rydych yn ymddiried ynddyn nhw ac yn eu hadnabod yn dda; er enghraifft, eich gŵr, eich gwraig, eich partner, eich plant sy'n oedolion neu ffrindiau da.

Dewiswch un atwrnai neu fwy nag un. Os byddwch yn dewis llawer o atwrneiod, mae'n bosib y bydd yn anodd iddyn nhw wneud penderfyniadau ar y cyd.

### Darparwr tystysgrif

| |
|---|
| |

Mae angen ichi gael rhywun i gadarnhau nad oes neb yn eich gorfodi i wneud LPA a'ch bod yn deall yr hyn rydych yn ei wneud. Hwn fydd eich 'darparwr tystysgrif'. Rhaid i'r darparwr naill ai:

- fod â sgiliau proffesiynol perthnasol, er enghraifft meddyg neu gyfreithiwr
- fod wedi'ch adnabod yn dda ers dwy flynedd o leiaf, er enghraifft ffrind neu gydweithiwr

Mae rhai pobl sydd ddim yn cael bod yn ddarparwr tystysgrif. Gweler y rhestr yn y Canllawiau, rhan A10.

### Tystion

| |
|---|
| |
| |
| |
| |

Chewch chi ddim tystio i lofnodion eich atwrneiod a chaiff eich atwrneiod ddim tystio i'ch llofnodion chi. Caiff unrhyw un arall sydd dros 18 oed fod yn dyst.

## Pobl y gallech fod yn dymuno'u cynnwys yn eich LPA

### Atwrneiod wrth gefn

| |
|---|
| |
| |
| |
| |

Does dim rhaid ichi benodi atwrneiod wrth gefn ond maen nhw'n help i warchod eich LPA. Heb atwrneiod wrth gefn, efallai na fydd eich LPA yn gweithio os digwydd i un o'ch atwrneiod gwreiddiol roi'r gorau i weithredu ar eich rhan.

### Pobl i'w hysbysu

| |
|---|
| |
| |
| |
| |

Mae 'pobl i'w hysbysu' yn gwneud eich LPA yn fwy diogel. Gall y rhain godi unrhyw bryderon am eich LPA cyn ei chofrestru - er enghraifft, os byddan nhw'n meddwl eich bod o dan bwysau i wneud yr LPA.

Swyddfa'r
Gwarcheidwad
Cyhoeddus

**Llinell gymorth**
**0300 456 0300**

# Atwrneiaeth arhosol ar gyfer eiddo a materion ariannol

## Adran 1

## Y rhoddwr

Rydych yn penodi pobl eraill i wneud penderfyniadau ar eich rhan.
Chi yw'r 'rhoddwr'.

**Cyfyngiadau** – rhaid ichi fod yn 18 oed o leiaf ac yn gallu deall a gwneud penderfyniadau drosoch chi'ch hun (yr enw ar hyn yw 'galluedd meddyliol').

**Help?**

I gael help gyda'r adran hon gweler y Canllawiau, rhan A1.

**Os ydych yn llenwi'r ffurflen hon ar ran ffrind neu berthynas** ac nad ydyn nhw'n gallu gwneud penderfyniadau'n annibynnol bellach, ni chant wneud LPA. Gweler y Canllawiau 'Cyn ichi ddechrau' i gael gwybod rhagor.

Teitl

Enwau cyntaf

Enw olaf

Unrhyw enwau eraill rydych yn eu defnyddio (dewisol e.e. eich enw priod)

Dyddiad geni

Dydd Mis Blwyddyn

Cyfeiriad

Cod post

Cyfeiriad ebost (dewisol)

**At ddefnydd OPG yn unig**

Dyddiad cofrestru'r LPA

Dydd Mis Blwyddyn

Cyfeirnod OPG

Dim ond os yw'r stamp swyddogol yma y bydd hyn yn ddilys

Adran 2

# Yr atwrneiod

Llinell gymorth
0300 456 0300

Bydd y bobl y byddwch yn eu dewis i wneud penderfyniadau ar eich rhan yn cael eu galw'n 'atwrneiod'. Does dim angen gwybodaeth na hyfforddiant cyfreithiol arbenigol ar eich atwrneiod. Dylen nhw fod yn bobl rydych yn ymddiried ynddyn nhw ac yn eu hadnabod yn dda. Bydd pobl yn aml yn dewis eu gŵr, eu gwraig neu eu partner, eu mab neu eu merch, neu eu ffrind gorau.

**Bydd angen ichi gael o leiaf un atwrnai, ond gallwch ddewis mwy na hynny.**

Byddwch hefyd yn cael dewis 'atwrneiod wrth gefn' yn adran 4. Bydd y rhain yn gallu camu i'r bwlch os bydd un o'r atwrneiod y byddwch yn eu penodi yma'n methu â gweithredu ar eich rhan bellach.

Er mwyn penodi corfforaeth ymddiriedolaeth, llenwch flwch yr atwrnai cyntaf a thiciwch y blwch yn yr adran honno. Rhaid iddyn nhw lofnodi taflen Parhad 4. I gael gwybod rhagor am gorfforaethau ymddiriedolaeth, gweler y Canllawiau, rhan A2.

**Help?**

I gael help gyda'r adran hon gweler y Canllawiau, rhan A2.

**Cyfyngiadau** – Rhaid i atwrneiod fod yn 18 oed o leiaf a rhaid iddyn nhw fod â galluedd meddyliol i wneud penderfyniadau. Rhaid iddyn nhw beidio â bod yn fethdalwyr nac yn destun gorchymyn rhyddhad dyled.

Teitl Enwau cyntaf

Enw olaf (neu enw'r gorfforaeth ymddiriedolaeth)

Dyddiad geni

Dydd Mis Blwyddyn

Cyfeiriad

Cod post

Cyfeiriad ebost (dewisol)

☐ Corfforaeth ymddiriedolaeth yw'r atwrnai hwn

Teitl Enwau cyntaf

Enw olaf

Dyddiad geni

Dydd Mis Blwyddyn

Cyfeiriad

Cod post

Cyfeiriad ebost (dewisol)

Dim ond os yw'r stamp swyddogol yma y bydd hyn yn ddilys

# Adran 2 – parhad

**Llinell gymorth**
**0300 456 0300**

Teitl

Enwau cyntaf

Enw olaf

Dyddiad geni

Dydd Mis Blwyddyn

Cyfeiriad

Cod post

Cyfeiriad ebost (dewisol)

Teitl

Enwau cyntaf

Enw olaf

Dyddiad geni

Dydd Mis Blwyddyn

Cyfeiriad

Cod post

Cyfeiriad ebost (dewisol)

☐ **Rhagor o atwrneiod –** Rwyf am benodi mwy na 4 atwrnai. Defnyddiwch ddalen barhad 1.

Dim ond os yw'r stamp swyddogol yma y bydd hyn yn ddilys

# Adran 3
## Sut y dylai eich atwrneiod wneud penderfyniadau?

**Llinell gymorth**
**0300 456 0300**

Bydd angen ichi ddewis a gaiff eich atwrneiod wneud penderfyniadau ar eu pen eu hunain ynteu a fydd yn rhaid iddyn nhw gytuno ar rai penderfyniadau neu ar bob penderfyniad yn unfrydol.

Beth bynnag y byddwch yn ei ddewis, rhaid iddyn nhw bob tro weithredu er eich lles gorau.

☐ **Dim ond un atwrnai yr wyf wedi'i benodi** (ewch i adran 4)

**Sut rydych chi am i'ch atwrneiod gydweithio?** (ticiwch un yn unig)

☐ **Ar y cyd ac yn unigol**

Caiff atwrneiod wneud penderfyniadau ar eu pen eu hunain neu gyda'i gilydd. Dyma'r hyn y bydd y rhan fwyaf o bobl yn ei ddewis oherwydd dyma'r un mwyaf ymarferol. Gall atwrneiod ddod at ei gilydd i wneud penderfyniadau pwysig os byddan nhw'n dymuno, ond fe allan nhw wneud penderfyniadau syml neu frys ar eu pen eu hunain. Caiff yr atwrneiod ddewis pa bryd y byddan nhw'n gweithredu gyda'i gilydd a pha bryd y byddan nhw'n gweithredu ar eu pen eu hunain. Bydd hyn hefyd yn golygu, os bydd un o'r atwrneiod yn marw neu'n methu â gweithredu rhagor, y bydd eich LPA yn dal i weithio.
Os bydd un atwrnai'n gwneud penderfyniad, bydd hynny'n cael yr un effaith â phetai pob un o'r atwrneiod wedi gwneud y penderfyniad hwnnw.

☐ **Ar y cyd**

Rhaid i'r atwrneiod gytuno'n unfrydol ar bob penderfyniad, ni waeth pa mor fawr na pha mor fach. Cofiwch, gallai hyn achosi oedi wrth wneud rhai penderfyniadau syml oherwydd bod angen amser i gael yr atwrneiod at ei gilydd. Os na fydd eich atwrneiod yn gallu cytuno ar benderfyniad, yna, yr unig ffordd o wneud y penderfyniad hwnnw fydd mynd i'r llys.
**Byddwch yn ofalus** – os bydd un atwrnai'n marw neu'n methu â gweithredu rhagor, fydd dim un o'ch atwrneiod yn gallu gweithredu. Y rheswm dros hyn yw bod y gyfraith yn dweud mai un uned yw grŵp sy'n cael ei benodi 'ar y cyd'. Ni fydd eich LPA yn gweithio rhagor heblaw eich bod wedi penodi o leiaf un atwrnai wrth gefn (yn adran 4).

☐ **Ar y cyd ar gyfer rhai penderfyniadau, ar y cyd ac yn unigol ar gyfer penderfyniadau eraill**

Rhaid i atwrneiod gytuno'n unfrydol ar rai penderfyniadau, ond fe gân nhw wneud rhai eraill ar eu pen eu hunain. Os byddwch yn dewis hyn, rhaid ichi restru'r penderfyniadau y dylai eich atwrneiod eu gwneud ar y cyd a chytuno'n unfrydol arnyn nhw ar dudalen barhad 2. Mae'r geiriad y byddwch yn ei ddefnyddio'n bwysig. Mae 'na enghreifftiau yn y Canllawiau, rhan A3.
**Byddwch yn ofalus** – os bydd un atwrnai'n marw neu'n methu â gweithredu rhagor, fydd dim un o'ch atwrneiod yn gallu gwneud unrhyw un o'r penderfyniadau rydych wedi dweud y dylen nhw eu gwneud ar y cyd. Ni fydd eich LPA yn gweithio rhagor ar gyfer y penderfyniadau hynny heblaw eich bod yn penodi o leiaf un atwrnai wrth gefn (yn adran 4). Bydd eich atwrneiod gwreiddiol yn dal i allu gwneud unrhyw rai o'r penderfyniadau eraill ochr yn ochr â'ch atwrneiod wrth gefn.

**Help?**

I gael help gyda'r adran hon gweler y Canllawiau, rhan A3.

Os byddwch yn dewis 'ar y cyd ar gyfer rhai penderfyniadau...', efallai y byddech yn hoffi cael cyngor cyfreithiol yn enwedig os nad yw'r enghreifftiau yn rhan A3 o'r Canllawiau'n cyfateb i'ch anghenion.

Dim ond os yw'r stamp swyddogol yma y bydd hyn yn ddilys

Adran 4

# Atwrneiod wrth gefn

**Llinell gymorth**
**0300 456 0300**

## Adran ddewisol yw hon, ond rydym yn argymell eich bod yn ei hystyried

Trefniant rhag ofn yw atwrneiod wrth gefn, rhag ofn na fydd un o'ch atwrneiod gwreiddiol yn gallu gwneud penderfyniadau drosoch rhagor.

Er mwyn penodi corfforaeth ymddiriedolaeth, llenwch flwch yr atwrnai cyntaf isod a thiciwch y blwch yn yr adran honno. Rhaid iddyn nhw lofnodi taflen barhad 4.

**Rhesymau pam y byddai atwrneiod wrth gefn yn camu i mewn** – os bydd un o'ch atwrneiod gwreiddiol yn marw, yn colli galluedd, neu os na fydd yn dymuno bod yn atwrnai ichi rhagor, os bydd yn mynd yn fethdalwr neu'n destun gorchymyn rhyddhad dyled neu os nad yw'n ŵr, yn wraig neu'n bartner sifil cyfreithiol ichi rhagor.

**Cyfyngiadau** – rhaid i atwrneiod wrth gefn fod yn 18 oed o leiaf a rhaid iddyn nhw fod â galluedd meddyliol i wneud penderfyniadau. Rhaid iddyn nhw beidio â bod yn fethdalwyr nac yn destun gorchymyn rhyddhad dyled.

**Help?**

I gael help gyda'r adran hon gweler y Canllawiau, rhan A4.

| Atwrnai wrth gefn 1 | Atwrnai wrth gefn 2 |
|---|---|
| Teitl ☐ Enwau cyntaf ☐ | Teitl ☐ Enwau cyntaf ☐ |
| Enw olaf (neu enw'r gorfforaeth ymddiriedolaeth) ☐ | Enw olaf ☐ |
| Dyddiad geni: Dydd ☐☐ Mis ☐☐ Blwyddyn ☐☐☐☐ | Dyddiad geni: Dydd ☐☐ Mis ☐☐ Blwyddyn ☐☐☐☐ |
| Cyfeiriad ☐ ☐ ☐ | Cyfeiriad ☐ ☐ ☐ |
| Cod post ☐ | Cod post ☐ |
| ☐ Corfforaeth ymddiriedolaeth yw'r atwrnai hwn | |

☐ **Mwy o atwrneiod wrth gefn** – rwyf am benodi mwy na dau wrth gefn. Defnyddiwch ddalen barhad 1.

## Pa bryd a sut y caiff eich atwrneiod wrth gefn weithredu

Fel rheol, bydd atwrneiod wrth gefn yn camu i mewn pan fydd un o'ch atwrneiod **gwreiddiol** yn rhoi'r gorau i weithredu drosoch. Os oes mwy nag un atwrnai **wrth gefn**, byddan nhw i gyd yn camu i mewn ar unwaith. Os byddan nhw'n cymryd lle eich atwrnai/atwrneiod gwreiddiol yn **llawn** ar unwaith, byddan nhw fel rheol yn gweithredu ar y cyd. Gallwch newid rhai agweddau ar hyn ond bydd y rhan fwyaf o bobl yn dewis peidio â'u newid. Gweler y Canllawiau, rhan A4.

Dylech ystyried cael cyngor cyfreithiol os ydych yn dymuno newid pa bryd neu sut y bydd eich atwrneiod wrth gefn yn gweithredu.

☐ Rwyf am newid pa bryd neu sut y caiff fy atwrneiod weithredu (dewisol). Defnyddiwch ddalen barhad 2.

Dim ond os yw'r stamp swyddogol yma y bydd hyn yn ddilys

Adran 5

# Pa bryd y caiff eich atwrneiod wneud penderfyniadau?

**Llinell gymorth**
**0300 456 0300**

Gallwch ganiatáu i'ch atwrneiod wneud penderfyniadau:

- cyn gynted ag y bydd yr LPA wedi'i chofrestru gan Swyddfa'r Gwarcheidwad Cyhoeddus
- dim ond pan na fydd gennych alluedd meddyliol

Tra bydd gennych alluedd meddyliol, bydd gennych reolaeth dros yr holl benderfyniadau sy'n effeithio arnoch. Os byddwch yn dewis yr opsiwn cyntaf, dim ond os byddwch yn caniatáu iddyn nhw wneud penderfyniadau ar eich rhan y caiff eich atwrneiod wneud hynny. Maen nhw'n gyfrifol i chi am unrhyw benderfyniadau y byddwch yn caniatáu iddyn nhw'u gwneud.

Rhaid i'ch atwrneiod weithredu er eich lles gorau bob amser.

**Help?**

I gael help gyda'r adran hon gweler y Canllawiau, rhan A5.

**Pa bryd rydych chi am i'ch atwrneiod allu gwneud penderfyniadau?**
(marciwch un yn unig)

☐ **Cyn gynted ag y bydd fy LPA wedi'i chofrestru (a hefyd pan na fydd gennyf alluedd meddyliol)**

Bydd y rhan fwyaf o bobl yn dewis yr opsiwn hwn oherwydd dyma'r un mwyaf ymarferol.

Tra bydd gennych alluedd meddyliol o hyd, dim ond **gyda'ch caniatâd chi** y caiff eich atwrneiod weithredu. Os byddwch yn colli galluedd yn ddiweddarach, fe allan nhw barhau i weithredu ar eich rhan ym mhob penderfyniad y mae'r LPA hon yn ei gynnwys.

Mae'r opsiwn hwn yn ddefnyddiol os gallwch chi wneud eich penderfyniadau eich hun ond bod gennych reswm arall i gael help gan eich atwrneiod - er enghraifft, os ydych chi i ffwrdd ar eich gwyliau, neu os oes gennych gyflwr corfforol sy'n ei gwneud yn anodd ichi ymweld â'r banc, siarad ar y ffôn neu lofnodi dogfennau.

☐ **Dim ond pan na fydd gennyf alluedd meddyliol**

**Byddwch yn ofalus –** mae hyn yn gallu golygu bod eich LPA yn llai defnyddiol o lawer. Efallai y gofynnir i'ch atwrneiod brofi nad oes gennych alluedd meddyliol bob tro y byddan nhw'n ceisio defnyddio'r LPA hon.

Dim ond os yw'r stamp swyddogol yma y bydd hyn yn ddilys

Adran 6

# Pobl i'w hysbysu pan gaiff yr LPA ei chofrestru

**Llinell gymorth**
**0300 456 0300**

## Adran ddewisol yw hon

Gallwch roi gwybod i bobl eich bod yn bwriadu cofrestru'ch LPA. Gallan nhw godi unrhyw bryder sydd ganddyn nhw am yr LPA - er enghraifft, bod rhywun wedi rhoi pwysau arnoch i'w gwneud neu fod rhyw dwyll wedi bod.

Pan gaiff yr LPA ei chofrestru, rhaid i'r sawl sy'n gwneud cais am ei chofrestru (chi neu un o'ch atwrneiod) anfon hysbysiad at 'y bobl i'w hysbysu'.

**Chewch chi ddim rhoi'ch atwrneiod neu'ch atwrneiod wrth gefn yma.**

Gall 'pobl i'w hysbysu' wrthwynebu'r LPA, ond dim ond am resymau penodol (mae'r rhain wedi'u rhestru yn y ffurflen hysbysu LP3). Ar ôl hynny, ni fydd ganddyn nhw ran yn yr LPA rhagor. Dewiswch bobl sy'n poeni am eich lles gorau ac a fyddai'n barod i godi llais petai rhywbeth yn eu poeni

**Help?**

I gael help gyda'r adran hon gweler y Canllawiau, rhan A6.

Teitl ______ Enwau cyntaf ______

Enw olaf ______

Cyfeiriad ______

Cod post ______

Teitl ______ Enwau cyntaf ______

Enw olaf ______

Cyfeiriad ______

Cod post ______

Teitl ______ Enwau cyntaf ______

Enw olaf ______

Cyfeiriad ______

Cod post ______

Teitl ______ Enwau cyntaf ______

Enw olaf ______

Cyfeiriad ______

Cod post ______

☐ Rwyf am benodi rhywun arall i'w hysbysu (dim mwy na 5) – defnyddiwch ddalen barhad 1.

Dim ond os yw'r stamp swyddogol yma y bydd hyn yn ddilys

# Dymuniadau a chyfarwyddiadau

**Llinell gymorth**
**0300 456 0300**

### Adran ddewisol yw hon

Gallwch ddweud wrth eich atwrneiod beth fyddai **orau gennych** o ran sut y byddant yn gwneud penderfyniadau, neu gallwch roi **cyfarwyddiadau** penodol iddyn nhw y mae'n rhaid eu dilyn wrth wneud penderfyniadau.

Bydd y rhan fwyaf o bobl yn gadael y dudalen hon yn wag - mae'n bosibl i chi gael sgwrs â'ch atwrneiod er mwyn iddyn nhw ddeall sut yr hoffech iddyn nhw wneud penderfyniadau ar eich rhan.

**Help?**

I gael help gyda'r adran hon gweler y Canllawiau, rhan A7.

## Dymuniadau

Does dim rhaid i'ch atwrneiod ddilyn eich dymuniadau, ond fe ddylen nhw eu cadw nhw mewn cof. I weld enghreifftiau o hyn, gweler y Canllawiau, rhan A7

**Dymuniadau** – defnyddiwch eiriau fel 'byddai'n well gen i' a 'byddwn yn hoffi'

☐ Mae angen rhagor o le arnaf - defnyddiwch ddalen barhad 2.

## Cyfarwyddiadau

Rhaid i'ch atwrneiod ddilyn eich cyfarwyddiadau i'r llythyren. I weld enghreifftiau o hyn, gweler y Canllawiau, rhan A7.

**Byddwch yn ofalus** – os byddwch yn rhoi cyfarwyddiadau sydd ddim yn gyfreithiol gywir, bydd yn rhaid eu dileu cyn y gallai eich LPA gael ei chofrestru.

Os ydych am roi cyfarwyddiadau, efallai yr hoffech ofyn am gyngor cyfreithiol

**Cyfarwyddiadau** – defnyddiwch eiriau fel 'rhaid' a 'gorfod'.

☐ Mae angen rhagor o le arnaf - defnyddiwch ddalen barhad 2.

Dim ond os yw'r stamp swyddogol yma y bydd hyn yn ddilys

# Adran 8
## Eich hawliau a'ch cyfrifoldebau cyfreithiol

Llinell gymorth
0300 456 0300

### ! Rhaid i bawb sy'n llofnodi'r LPA ddarllen y wybodaeth hon

Yn adrannau 9 i 11, byddwch chi, darparwr y dystysgrif, eich atwrneiod i gyd a'ch atwrneiod wrth gefn yn llofnodi'r atwrneiaeth arhosol hon er mwyn llunio cytundeb cyfreithiol rhyngoch (gweithred).

**Drwy lofnodi'r atwrneiaeth arhosol hon, rydych chi (y rhoddwr) yn penodi pobl (atwrneiod) i wneud penderfyniadau ar eich rhan.**

**Mae pob LPA yn cael ei llywodraethu gan Ddeddf Galluedd Meddyliol 2005**, y rheoliadau sydd wedi'u gwneud o dani a Chod Ymarfer y Ddeddf. Rhaid i atwrneiod roi sylw i'r dogfennau hyn. Mae'r Cod Ymarfer ar gael yn www.gov.uk/opg/mca-code neu gan y Llyfrfa.

**Help?**

I gael help gyda'r adran hon gweler y Canllawiau, rhan A8.

**Rhaid i'ch atwrneiod ddilyn egwyddorion y Ddeddf Galluedd Meddyliol:**

1. Rhaid i'ch atwrneiod dybio eich bod yn gallu gwneud penderfyniadau drosoch eich hun oni sefydlir na allwch chi wneud hynny.
2. Rhaid i'ch atwrneiod eich helpu i wneud cynifer o'ch penderfyniadau eich hun ag y gallwch chi. Rhaid i bob un ohonynt gymryd pob cam ymarferol i'ch helpu i benderfynu. Dim ond os na fyddan nhw wedi llwyddo i'ch helpu i benderfynu drwy ddilyn y camau hynny y cân nhw'ch trin fel petaech yn methu â gwneud penderfyniad.
3. Rhaid i'ch atwrneiod beidio â'ch trin fel petaech yn methu â gwneud penderfyniad dim ond oherwydd eich bod yn gwneud penderfyniad annoeth.
4. Rhaid i'ch atwrneiod weithredu a gwneud penderfyniadau er eich lles gorau pan na fyddwch yn gallu penderfynu.
5. Cyn i'ch atwrneiod benderfynu neu weithredu ar eich rhan, rhaid iddyn nhw ystyried a allan nhw wneud penderfyniad neu weithredu mewn ffordd sy'n cyfyngu llai ar eich hawliau a'ch rhyddid ond sy'n dal i gyflawni'r pwrpas.

**Rhaid i'ch atwrneiod weithredu bob tro er eich lles gorau.** Mae hyn yn cael ei esbonio yn y canllawiau Ymgeisio, rhan A8, ac mae'n cael ei ddiffinio yng Nghod Ymarfer y Ddeddf Galluedd Meddyliol.

**Cyn gallu defnyddio'r LPA hon:**

- rhaid iddi gael ei chofrestru gan Swyddfa'r Gwarcheidwad Cyhoeddus (OPG)
- mae'n bosibl ei chyfyngu i'r adeg pan na fydd gennych alluedd meddyliol, a dibynnu ar eich dewis yn adran 5

**Dileu'ch LPA:** Gallwch ddileu'r LPA unrhyw bryd, cyn belled bod gennych y galluedd meddyliol i wneud hynny. Nid oes ots a yw'r LPA wedi'i chofrestru neu beidio. I gael gwybod rhagor, gweler y Canllawiau, rhan B.

**Eich ewyllys a'ch LPA:** Chaiff eich atwrneiod ddim defnyddio'r LPA hon i newid eich ewyllys. Bydd yr LPA hon yn dod i ben pan fyddwch farw. Wedyn, rhaid i'ch atwrneiod anfon yr LPA sydd wedi'i chofrestru, unrhyw gopïau ardystiedig a chopi o'ch tystysgrif marwolaeth i Swyddfa'r Gwarcheidwad Cyhoeddus.

**Diogelu data:** I gael gwybod sut y bydd Swyddfa'r Gwarcheidwad Cyhoeddus yn defnyddio'ch data personol, gweler y Canllawiau, rhan D.

Dim ond os yw'r stamp swyddogol yma y bydd hyn yn ddilys

Adran 9

# Llofnod: rhoddwr

Llinell gymorth
0300 456 0300

**Drwy lofnodi ar y dudalen hon, rwy'n cadarnhau'r canlynol i gyd:**

- Rwyf wedi darllen yr atwrneiaeth arhosol hon (LPA) gan gynnwys adran 8 'Eich hawliau a'ch cyfrifoldebau cyfreithiol', neu mae rhywun wedi'i darllen imi.
- Rwy'n penodi fy atwrneiod ac yn rhoi'r awdurdod iddyn nhw wneud penderfyniadau am fy eiddo a'm materion ariannol, gan gynnwys ar yr adegau hynny pan na allaf weithredu drosof fy hun oherwydd nad oes gennyf alluedd meddyliol, yn unol â thelerau'r LPA hon a darpariaethau Deddf Galluedd Meddyliol 2005
- Rwyf naill ai wedi penodi pobl i'w hysbysu (yn adran 6) neu rwyf wedi dewis peidio â hysbysu neb pan gaiff yr LPA ei chofrestru
- Rwy'n cytuno y caiff Swyddfa'r Gwarcheidwad Cyhoeddus ddefnyddio'r wybodaeth yr wyf wedi'i rhoi wrth iddi gyflawni ei dyletswyddau.

**!**

**Byddwch yn ofalus**

Llofnodwch y dudalen hon (ac unrhyw ddalenni parhad) cyn i neb lofnodi adrannau 10 ac 11.

**Y Rhoddwr**

Llofnodwyd (neu rhoddwyd marc) gan y sawl sy'n rhoi'r atwrneiaeth arhosol hon ac fe'i cyflwynwyd fel gweithred.

Llofnod neu farc

Dyddiad y llofnod neu'r marc

Dydd | Mis | Blwyddyn

Os ydych wedi defnyddio dalen barhad 1 neu 2 rhaid ichi lenwi a dyddio pob dalen barhad yr un pryd ag y byddwch yn llofnodi'r dudalen hon.

Os na allwch lofnodi'r LPA hon, fe gewch roi marc yn lle hynny. Os na allwch lofnodi na gwneud marc, fe gewch roi cyfarwyddyd i rywun arall lofnodi ar eich rhan, gan ddefnyddio dalen barhad 3.

**Y Tyst**

Ni chaiff tyst fod yn atwrnai nac yn atwrnai wrth gefn a benodwyd o dan yr LPA hon, a rhaid iddo/iddi fod yn 18 oed neu'n hŷn.

Llofnod neu farc

Enw llawn y tyst

Cyfeiriad

Cod Post

**Help?** I gael help gyda'r adran hon gweler y Canllawiau, rhan A9.

Dim ond os yw'r stamp swyddogol yma y bydd hyn yn ddilys

Adran 10

# Llofnod: darparwr y dystysgrif

**Llinell gymorth**
**0300 456 0300**

**! Peidiwch â llofnodi'r adran hon nes bod y rhoddwr wedi llofnodi adran 9**

Bydd 'darparwr y dystysgrif' yn llofnodi i gadarnhau ei fod wedi trafod yr atwrneiaeth arhosol (LPA) â'r rhoddwr, bod y rhoddwr yn deall yr hyn y mae'n ei wneud ac nad oes neb yn ei orfodi i wneud hyn. Dylai 'darparwr y dystysgrif' fod naill ai:

- yn rhywun sydd wedi adnabod y rhoddwr yn bersonol ers o leiaf 2 flynedd, er enghraifft ffrind, cymydog, cydweithiwr neu gyn-gydweithiwr
- yn rhywun sydd â sgiliau proffesiynol perthnasol, er enghraifft meddyg teulu'r rhoddwr, gweithiwr iechyd proffesiynol neu gyfreithiwr

**Ni** chaiff darparwr y dystysgrif fod yn un o'r atwrneiod.

**Help?**

I gael help gyda'r adran hon gweler y Canllawiau, rhan A10.

**Datganiad rhoddwr y dystysgrif**

Rwy'n tystio, cyn belled ag y gwn i, wrth imi lofnodi adran 9:

- fod y rhoddwr yn deall pwrpas yr LPA hon a chwmpas yr awdurdod a roddir dani
- nad oes dim twyll wedi bod na phwysau gormodol wedi ei roi ar y rhoddwr i'w gymell i greu'r LPA hon
- nad oes dim arall a fyddai'n atal yr LPA rhag cael ei chreu drwy gwblhau'r offeryn hwn

Drwy lofnodi'r adran hon, rwy'n cadarnhau:

- fy mod yn 18 oed neu'n hŷn
- fy mod wedi darllen yr LPA hon, gan gynnwys adran 8 'Eich hawliau a'ch cyfrifoldebau cyfreithiol'
- nad oes dim yn fy rhwystro rhag bod yn ddarparwr y dystysgrif
- bod y rhoddwr wedi fy newis i'n rhywun sydd wedi'i adnabod yn bersonol ers 2 flynedd o leiaf **NEU**
- fod y rhoddwr wedi fy newis i'n rhywun sydd â'r sgiliau a'r arbenigedd proffesiynol perthnasol.

**Cyfyngiadau** – ni chaiff darparwr y dystysgrif fod yn un o'r rhain:

- yn atwrnai neu'n atwrnai wrth gefn sydd wedi'i enwi yn yr LPA hon nac mewn unrhyw LPA neu atwrneiaeth barhaus arall ar gyfer y rhoddwr
- yn aelod o deulu'r rhoddwr neu'n aelod o un o deuluoedd yr atwrneiod, gan gynnwys gwŷr, gwragedd, partneriaid sifil, teulu yng nghyfraith a llys-berthnasau
- yn bartner dibriod, yn gariad naill ai i'r rhoddwr neu i un o'r atwrneiod (ni waeth a ydynt yn byw yn yr un cyfeiriad neu beidio)
- yn bartner busnes i'r rhoddwr neu'r atwrnai
- yn gyflogai i'r rhoddwr neu i un o'r atwrneiod
- yn berchennog, yn rheolwr, yn gyfarwyddwr neu'n gyflogedig mewn cartref gofal lle mae'r rhoddwr yn byw

**Darparwr y dystysgrif**

Teitl ______ Enwau Cyntaf ______

Enw olaf ______

Cyfeiriad ______

Cod post ______

Llofnod neu farc ______

Dyddiad y llofnod neu'r marc

Dydd ______ Mis ______ Blwyddyn ______

Dim ond os yw'r stamp swyddogol yma y bydd hyn yn ddilys

# Llofnod: atwrnai neu atwrnai wrth gefn

**Llinell gymorth**
**0300 456 0300**

**! Peidiwch â llofnodi'r adran hon nes bod darparwr y dystysgrif wedi llofnodi adran 10**

Mae angen i bob atwrnai a phob atwrnai wrth gefn lofnodi.
Mae 4 copi o'r dudalen hon - gwnewch ragor o gopïau os bydd angen.

**Help?**

I gael help gyda'r adran hon gweler y Canllawiau, rhan A11.

**Drwy lofnodi'r adran hon, rwy'n deall ac yn cadarnhau'r canlynol i gyd:**

- Fy mod yn 18 oed neu'n hŷn
- Rwyf wedi darllen yr atwrneiaeth arhosol hon (LPA) gan gynnwys adran 8 'Eich hawliau a'ch cyfrifoldebau cyfreithiol', neu mae rhywun wedi'i darllen imi
- Mae'n ddyletswydd arnaf i weithredu ar sail egwyddorion Deddf Galluedd Meddyliol 2005 a rhoi sylw i God Ymarfer y Ddeddf Galluedd Meddyliol
- Rhaid imi wneud penderfyniadau a gweithredu er lles gorau'r rhoddwr
- Rhaid imi ystyried unrhyw gyfarwyddiadau neu ddymuniadau'r rhoddwr fel y'u nodir yn yr LPA hwn.
- Dim ond pan fydd yr LPA hon wedi'i chofrestru ac ar yr adeg a nodir yn adran 5 o'r LPA y caf wneud penderfyniadau a gweithredu.

**Datganiad pellach gan atwrnai wrth gefn:** Rwy'n deall mai dim ond ar ôl terfynu penodiad atwrnai gwreiddiol y bydd gennyf yr awdurdod i weithredu o dan yr LPA hon. Rhaid imi hysbysu'r Gwarcheidwad Cyhoeddus os bydd hyn yn digwydd

**Atwrnai neu atwrnai wrth gefn**

Llofnodwyd (neu rhoddwyd marc) gan yr atwrnai neu'r atwrnai wrth gefn a'i chyflwyno fel gweithred.

Llofnod neu farc

Dyddiad y llofnod neu'r marc

Dydd Mis Blwyddyn

Teitl Enwau cyntaf

Enw Olaf

**Tyst**

Chaiff rhoddwr yr LPA hon ddim bod yn dyst, a rhaid i'r tyst fod yn 18 oed neu'n hŷn.

Llofnod neu farc

Enwau llawn y tyst

Cyfeiriad

Cod post

Adran 11

# Llofnod: atwrnai neu atwrnai wrth gefn

**Llinell gymorth**
**0300 456 0300**

**! Peidiwch â llofnodi'r adran hon nes bod darparwr y dystysgrif wedi llofnodi adran 10**

Mae angen i bob atwrnai a phob atwrnai wrth gefn lofnodi.
Mae 4 copi o'r dudalen hon - gwnewch ragor o gopïau os bydd angen.

**Help?**

I gael help gyda'r adran hon gweler y Canllawiau, rhan A11.

**Drwy lofnodi'r adran hon, rwy'n deall ac yn cadarnhau'r canlynol i gyd:**

- Fy mod yn 18 oed neu'n hŷn
- Rwyf wedi darllen yr atwrneiaeth arhosol hon (LPA) gan gynnwys adran 8 'Eich hawliau a'ch cyfrifoldebau cyfreithiol', neu mae rhywun wedi'i darllen imi
- Mae'n ddyletswydd arnaf i weithredu ar sail egwyddorion Deddf Galluedd Meddyliol 2005 a rhoi sylw i God Ymarfer y Ddeddf Galluedd Meddyliol
- Rhaid imi wneud penderfyniadau a gweithredu er lles gorau'r rhoddwr
- Rhaid imi ystyried unrhyw gyfarwyddiadau neu ddymuniadau'r rhoddwr fel y'u nodir yn yr LPA hwn.
- Dim ond pan fydd yr LPA hon wedi'i chofrestru ac ar yr adeg a nodir yn adran 5 o'r LPA y caf wneud penderfyniadau a gweithredu.

**Datganiad pellach gan atwrnai wrth gefn:** Rwy'n deall mai dim ond ar ôl terfynu penodiad atwrnai gwreiddiol y bydd gennyf yr awdurdod i weithredu o dan yr LPA hon. Rhaid imi hysbysu'r Gwarcheidwad Cyhoeddus os bydd hyn yn digwydd.

**Atwrnai neu atwrnai wrth gefn**

Llofnodwyd (neu rhoddwyd marc) gan yr atwrnai neu'r atwrnai wrth gefn a'i chyflwyno fel gweithred.

Llofnod neu farc

Dyddiad y llofnod neu'r marc

Dydd | Mis | Blwyddyn

Teitl

Enwau cyntaf

Enw Olaf

**Tyst**

Chaiff rhoddwr yr LPA hon ddim bod yn dyst, a rhaid i'r tyst fod yn 18 oed neu'n hŷn

Llofnod neu farc

Enwau llawn y tyst

Cyfeiriad

Cod post

Dim ond os yw'r stamp swyddogol yma y bydd hyn yn ddilys

Adran 11

# Llofnod: atwrnai neu atwrnai wrth gefn

**Llinell gymorth**
**0300 456 0300**

**! Peidiwch â llofnodi'r adran hon nes bod darparwr y dystysgrif wedi llofnodi adran 10**

Mae angen i bob atwrnai a phob atwrnai wrth gefn lofnodi.
Mae 4 copi o'r dudalen hon - gwnewch ragor o gopïau os bydd angen.

**Help?**

I gael help gyda'r adran hon gweler y Canllawiau, rhan A11.

**Drwy lofnodi'r adran hon, rwy'n deall ac yn cadarnhau'r canlynol i gyd:**

- Fy mod yn 18 oed neu'n hŷn
- Rwyf wedi darllen yr atwrneiaeth arhosol hon (LPA) gan gynnwys adran 8 'Eich hawliau a'ch cyfrifoldebau cyfreithiol', neu mae rhywun wedi'i darllen imi
- Mae'n ddyletswydd arnaf i weithredu ar sail egwyddorion Deddf Galluedd Meddyliol 2005 a rhoi sylw i God Ymarfer y Ddeddf Galluedd Meddyliol
- Rhaid imi wneud penderfyniadau a gweithredu er lles gorau'r rhoddwr
- Rhaid imi ystyried unrhyw gyfarwyddiadau neu ddymuniadau'r rhoddwr fel y'u nodir yn yr LPA hwn.
- Dim ond pan fydd yr LPA hon wedi'i chofrestru ac ar yr adeg a nodir yn adran 5 o'r LPA y caf wneud penderfyniadau a gweithredu.

**Datganiad pellach gan atwrnai wrth gefn:** Rwy'n deall mai dim ond ar ôl terfynu penodiad atwrnai gwreiddiol y bydd gennyf yr awdurdod i weithredu o dan yr LPA hon. Rhaid imi hysbysu'r Gwarcheidwad Cyhoeddus os bydd hyn yn digwydd.

**Atwrnai neu atwrnai wrth gefn**

Llofnodwyd (neu rhoddwyd marc) gan yr atwrnai neu'r atwrnai wrth gefn a'i chyflwyno fel gweithred.

Llofnod neu farc

Dyddiad y llofnod neu'r marc

Dydd Mis Blwyddyn

Teitl

Enwau cyntaf

Enw Olaf

**Tyst**

Chaiff rhoddwr yr LPA hon ddim bod yn dyst, a rhaid i'r tyst fod yn 18 oed neu'n hŷn

Llofnod neu farc

Enwau llawn y tyst

Cyfeiriad

Cod post

Dim ond os yw'r stamp swyddogol yma y bydd hyn yn ddilys

# Adran 11
## Llofnod: atwrnai neu atwrnai wrth gefn

Llinell gymorth
0300 456 0300

**! Peidiwch â llofnodi'r adran hon nes bod darparwr y dystysgrif wedi llofnodi adran 10**

Mae angen i bob atwrnai a phob atwrnai wrth gefn lofnodi.
Mae 4 copi o'r dudalen hon - gwnewch ragor o gopïau os bydd angen.

**Help?**

I gael help gyda'r adran hon gweler y Canllawiau, rhan A11.

**Drwy lofnodi'r adran hon, rwy'n deall ac yn cadarnhau'r canlynol i gyd:**

- Fy mod yn 18 oed neu'n hŷn
- Rwyf wedi darllen yr atwrneiaeth arhosol hon (LPA) gan gynnwys adran 8 'Eich hawliau a'ch cyfrifoldebau cyfreithiol', neu mae rhywun wedi'i darllen imi
- Mae'n ddyletswydd arnaf i weithredu ar sail egwyddorion Deddf Galluedd Meddyliol 2005 a rhoi sylw i God Ymarfer y Ddeddf Galluedd Meddyliol
- Rhaid imi wneud penderfyniadau a gweithredu er lles gorau'r rhoddwr
- Rhaid imi ystyried unrhyw gyfarwyddiadau neu ddymuniadau'r rhoddwr fel y'u nodir yn yr LPA hwn.
- Dim ond pan fydd yr LPA hon wedi'i chofrestru ac ar yr adeg a nodir yn adran 5 o'r LPA y caf wneud penderfyniadau a gweithredu.

**Datganiad pellach gan atwrnai wrth gefn:** Rwy'n deall mai dim ond ar ôl terfynu penodiad atwrnai gwreiddiol y bydd gennyf yr awdurdod i weithredu o dan yr LPA hon. Rhaid imi hysbysu'r Gwarcheidwad Cyhoeddus os bydd hyn yn digwydd.

**Atwrnai neu atwrnai wrth gefn**

Llofnodwyd (neu rhoddwyd marc) gan yr atwrnai neu'r atwrnai wrth gefn a'i chyflwyno fel gweithred.

Llofnod neu farc

Dyddiad y llofnod neu'r marc

Dydd Mis Blwyddyn

Teitl

Enwau cyntaf

Enw Olaf

**Tyst**

Chaiff rhoddwr yr LPA hon ddim bod yn dyst, a rhaid i'r tyst fod yn 18 oed neu'n hŷn

Llofnod neu farc

Enwau llawn y tyst

Cyfeiriad

Cod post

Dim ond os yw'r stamp swyddogol yma y bydd hyn yn ddilys

# Nawr, cofrestrwch eich LPA

Cyn ichi allu defnyddio'r LPA, **rhaid** iddi gael ei chofrestru gan Swyddfa'r Gwarcheidwad Cyhoeddus. Gorffennwch lenwi'r ffurflen hon er mwyn cofrestru'r LPA. Gweler rhan B o'r Canllawiau.

## Pobl i'w hysbysu

Os ydych wedi rhestru 'pobl i'w hysbysu' yn adran 6, rhaid ichi eich hysbysu yn awr eich bod yn cofrestru'r LPA. Gweler rhan C o'r Canllawiau.

Llenwch gopi o'r ffurflen hysbysu pobl - LP3 - a'i hanfon at bob un ohonynt.

Pan fyddwch yn llofnodi adran 15 o'r ffurflen hon, byddwch yn cadarnhau eich bod wedi anfon ffurflenni at y 'bobl i'w hysbysu'.

## Cofrestrwch yn awr

Nid oes yn rhaid ichi gofrestru ar unwaith, ond mae'n syniad da gwneud hynny rhag ofn eich bod wedi gwneud camgymeriad. Os byddwch yn oedi tan ar ôl i'r rhoddwr golli galluedd meddyliol, bydd yn amhosibl ichi gywiro unrhyw gamgymeriadau. Gallai hyn olygu bod yr LPA i gyd yn annilys ac na fyddai'n bosibl ei chofrestru na'i defnyddio.

# Cofrestru eich atwrneiaeth arhosol

**Llinell gymorth**
**0300 456 0300**

## Adran 12
## Y ceisydd

Dim ond os mai chi yw'r rhoddwr neu'r atwrnai/atwrneiod ar gyfer yr LPA y cewch wneud cais am gofrestru. Ddylai'r rhoddwr a'r atwrnai/atwrneiod ddim gwneud cais gyda'i gilydd.

**Pwy sy'n gwneud cais am gofrestru'r LPA?** (ticiwch un yn unig)

☐ **Y Rhoddwr** – bydd angen i'r rhoddwr lofnodi adran 15

☐ **Yr Atwrnai / atwrneiod** – Os cafodd yr atwrneiod eu penodi ar y cyd (yn adran 3) yna bydd angen i **bob un ohonynt** lofnodi adran 15. Fel arall, dim ond un o'r atwrneiod fydd yn gorfod llofnodi.

**Help?**

I gael help gyda'r adran hon gweler y Canllawiau, rhan B2.

Ysgrifennwch enw a dyddiad geni pob atwrnai sy'n gwneud cais am gofrestru'r LPA. Peidiwch â chynnwys dim atwrneiod sydd ddim yn gwneud cais.

Teitl ______ Enwau cyntaf ______

Enw olaf ______

Dyddiad geni

Dydd __ __ Mis __ __ Blwyddyn __ __ __ __

Teitl ______ Enwau cyntaf ______

Enw olaf ______

Dyddiad geni

Dydd __ __ Mis __ __ Blwyddyn __ __ __ __

Teitl ______ Enwau cyntaf ______

Enw olaf ______

Dyddiad geni

Dydd __ __ Mis __ __ Blwyddyn __ __ __ __

Teitl ______ Enwau cyntaf ______

Enw olaf ______

Dyddiad geni

Dydd __ __ Mis __ __ Blwyddyn __ __ __ __

Adran 13

# At bwy rydych chi am inni anfon yr LPA?

**Llinell gymorth**
**0300 456 0300**

Mae angen inni wybod at bwy i anfon yr LPA ar ôl ei chofrestru. Efallai hefyd y bydd angen inni gysylltu â rhywun sydd am holi ynglŷn â'r cais.

**Mae cyfeiriadau'r rhoddwr a'r atwrneiod gennym eisoes,** felly does dim rhaid ichi roi'r rheini yma eto, oni bai eu bod nhw wedi newid.

**At bwy yr hoffech inni anfon yr LPA ac unrhyw ohebiaeth?**

☐ **Y rhoddwr**

☐ **Atwrnai** (ysgrifennwch yr enw isod)

☐ **Rhywun arall** (ysgrifennwch yr enw a'r cyfeiriad isod)

Teitl ____ Enwau cyntaf ____

Enw olaf ____

Cwmni (dewisol) ____

Cyfeiriad ____

Cod post ____

**Sut y byddai'r unigolyn uchod yn dymuno inni gysylltu ag ef/hi?**

Cewch ddewis mwy nag un.

☐ **Post**

☐ **Ffôn** ____

☐ **Ebost** ____

☐ **Yn Gymraeg** (byddwn yn ysgrifennu ato/ati yn Gymraeg)

**Help?**

I gael help gyda'r adran hon gweler y Canllawiau, rhan B3.

# Adran 14
## Ffi ymgeisio

**Llinell gymorth**
**0300 456 0300**

Codir ffi am gofrestru atwrneiaeth arhosol - dangosir y swm ar ddalen flaen y ffurflen hon neu ar ffurflen LPA120.

Bydd y ffi'n newid o bryd i'w gilydd. Gallwch sicrhau eich bod yn talu'r swm cywir yn www.gov.uk/power-of-attorney/how-much-it-costs neu ffonio 0300 456 0300. Ni all Swyddfa'r Gwarcheidwad Cyhoeddus gofrestru'ch LPA nes eich bod wedi talu'r ffi.

**Sut yr hoffech dalu?**

☐ **Cerdyn** Er diogelwch, **peidiwch** ag ysgrifennu manylion eich cerdyn credyd neu ddebyd yma.
Byddwn yn cysylltu â chi i brosesu'r taliad.

**Eich rhif ffôn**

| | | | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | | | | | | | | | |

☐ **Siec** Amgaewch siec gyda'ch cais.

**Help?**

I gael help gyda'r adran hon gweler y Canllawiau, rhan B4.

**Gostyngiad ar y ffi ymgeisio**

Os yw'r rhoddwr ar incwm isel, efallai na fydd yn rhaid talu'r swm llawn. Gweler y manylion yn y Canllawiau, rhan B4.

☐ **Rwyf am wneud cais am ostyngiad ar y ffi**

Bydd angen ichi lenwi ffurflen LPA120 a'i chynnwys gyda'ch cais. Hefyd, bydd **angen ichi anfon prawf** bod y rhoddwr yn gymwys i gael gostyngiad.

**A ydych wedi gwneud cais o'r blaen?**

Os ydych wedi gwneud cais am gofrestru LPA o'r blaen a bod Swyddfa'r Gwarcheidwad Cyhoeddus wedi dweud nad oedd modd ei chofrestru, gallwch wneud cais eto o fewn 3 mis a chael gostyngiad ar y ffi.

☐ **Rwyf wedi gwneud cais o'r blaen.**

**Rhif yr achos**

| | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | | | | | | | |

**At ddefnydd OPG yn unig**

Cyfeirnod y taliad

Dyddiad y taliad

Dydd | Mis | Blwyddyn

Swm

# Adran 15
# Llofnod

**Llinell gymorth**
**0300 456 0300**

**Peidiwch â llofnodi'r adran hon nes bod adrannau 9, 10 ac 11 wedi'u llofnodi.**

Rhaid i'r sawl sy'n gwneud cais am gofrestru'r LPA (gweler adran 12) lofnodi a dyddio'r adran hon. Naill ai'r rhoddwr neu'r atwrnai/atwrneiod fydd hyn ond nid y ddau gyda'i gilydd.

Os bydd yr **atwrneiod** yn gwneud cais am gofrestru'r LPA a'u bod wedi'u penodi i weithredu **ar y cyd** (yn adran 3), rhaid i bob un ohonyn nhw lofnodi.

**Help?**

I gael help gyda'r adran hon gweler y Canllawiau, rhan B5.

**Drwy lofnodi'r adran hon, rwy'n cadarnhau popeth a ganlyn:**

- Fy mod yn  gwneud cais am gofrestru'r LPA sy'n dod gyda'r cais hwn
- Fy mod wedi rhoi gwybod i'r 'bobl i'w hysbysu' sydd wedi'u henwi yn adran 6 o'r LPA (os oes rhai) fy mod yn bwriadu cofrestru'r LPA
- Fy mod yn tystio bod y wybodaeth yn y ffurflen hon yn gywir hyd eithaf fy ngwybodaeth ac y credaf fi.

| | |
|---|---|
| Llofnod neu farc<br>[ ]<br>Dyddiad y llofnod<br>Dydd [ ][ ] Mis [ ][ ] Blwyddyn [ ][ ][ ][ ] | Llofnod neu farc<br>[ ]<br>Dyddiad y llofnod<br>Dydd [ ][ ] Mis [ ][ ] Blwyddyn [ ][ ][ ][ ] |
| Llofnod neu farc<br>[ ]<br>Dyddiad y llofnod<br>Dydd [ ][ ] Mis [ ][ ] Blwyddyn [ ][ ][ ][ ] | Llofnod neu farc<br>[ ]<br>Dyddiad y llofnod<br>Dydd [ ][ ] Mis [ ][ ] Blwyddyn [ ][ ][ ][ ] |

Os oes angen i fwy na 4 atwrnai lofnodi, gwnewch gopïau o'r dudalen hon.

**Gwirio’ch atwrneiaeth arhosol**

Does dim rhaid ichi ddefnyddio’r rhestr wirio hon, ond bydd yn help ichi sicrhau eich bod wedi llenwi’ch LPA yn gywir.

- [ ] Mae’r rhoddwr wedi llofnodi adrannau 1 i 7.
- [ ] Mae’r rhoddwr wedi llofnodi adran 9 yng ngŵydd tyst. Mae’r rhoddwr hefyd wedi llofnodi unrhyw gopïau o ddalenni parhad 1 a 2 a ddefnyddiwyd, a hynny ar yr un dyddiad ag y llofnodwyd adran 9.
- [ ] Mae darparwr y dystysgrif wedi llofnodi adran 10.
- [ ] Mae pob un o’r atwrneiod a’r atwrneiod wrth gefn wedi llofnodi adran 11, yng ngŵydd tyst / tystion.
- [ ] Mae adrannau 9, 10 ac 11 wedi cael eu llofnodi yn eu trefn. Rhaid bod Adran 9 wedi cael ei llofnodi gyntaf, wedyn adran 10 ac wedyn adran 11. Caiff y dyddiad ar gyfer y rhain fod ar yr un diwrnod neu ar wahanol ddiwrnodau.
- [ ] Mae adrannau 12 i 15 wedi cael eu llenwi gan y rhoddwr neu gan atwrnai. Os bydd yr atwrneiod yn gwneud cais a’u bod wedi’u penodi ‘ar y cyd’ (adran 3), maent i gyd wedi llofnodi adran 15 o’r ffurflen hon.
- [ ] Rwyf wedi talu’r ffi ymgeisio neu wedi gwneud cais am ostyngiad ar y ffi. Os wyf wedi gwneud cais am ostyngiad, rwyf wedi cynnwys y dystiolaeth ofynnol ac wedi llenwi ffurflen LPA120A.
- [ ] Os oedd unrhyw bobl i’w hysbysu yn adran 6, rwyf wedi’u hysbysu drwy ddefnyddio ffurflen LP3.
- [ ] Rwyf wedi cynnwys holl dudalennau’r LPA, hyd yn oed y rhai lle nad wyf wedi ysgrifennu dim neu lle nad oedd dim bylchau i’w llenwi.

**Llinell gymorth**
**0300 456 0300**

## Anfonwch i:

## Swyddfa’r Gwarcheidwad Cyhoeddus
## Blwch Post 16185
## Birmingham B2 2WH